

SIARTER ATODOL PRIFYSGOL CAERDYDD

ELISABETH YR AIL drwy Ras Duw Brenhines Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'n Teyrnasoedd a'n Tiriogaethau eraill, Pennaeth y Gymanwlad, Amddiffynnydd y Ffydd:

I BAWB Y BYDD Y DOGFENNAU HYN YN DOD I'W LLAW, CYFARCHION!

YN GYMAINT Â BOD Ei Mawrhydi'r Frenhines Fictoria ar y 7fed dydd o Hydref 1884 wedi rhoi Siarter (a elwir wedi hyn yn "Siarter 1884") yn cyfansoddi ac yn sefydlu Coleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy:

AC YN GYMAINT Â BOD Ei Mawrhydi'r Frenhines Fictoria ar y dydd 1af o Awst 1893 wedi rhoi i'r dywededig Goleg Prifysgol Siarter Atodol (a elwir wedi hyn yn "Siarter Atodol 1893") yn amrywio ac yn ymestyn Siarter 1884:

AC YN GYMAINT Â BOD Coleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy pan roddwyd Siarter gan Ei Mawrhydi'r Frenhines Fictoria ar y 30ain dydd o Dachwedd 1893 yn cyfansoddi ac yn sefydlu Ein Prifysgol Cymru wedi dod yn Goleg cyfansoddol o'n dywededig Brifysgol:

AC YN GYMAINT Â BOD Ei Fawrhydi'r Brenin Siôr V ar yr 21ain dydd o Ionawr 1931 wedi rhoi Siarter Atodol (a elwir wedi hyn yn "Siarter Atodol 1931") yn amrywio ac yn ehangu pwerau Coleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy:

AC YN GYMAINT Â BOD Siarter Atodol 1931 wedi'i diwygio ar wahanol adegau gan Statudau Arbennig a wnaethpwyd yn briodol o dani a'i chymeradwyo gan Ein Cyfrin Gyngor a bod enw a theitl Coleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy wedi'u newid gan Statud Arbennig o'r fath a wnaethpwyd ym 1972 yn Goleg Prifysgol, Caerdydd:

AC YN GYMAINT Â'N BOD Ni ar yr 11eg dydd o Ragfyr 1967 wedi rhoi Siarter (a elwir wedi hyn yn "Siarter 1967") yn cyfansoddi ac yn sefydlu Coleg Prifysgol o'n Prifysgol Cymru o dan enw a theitl

Athrofa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Cymru (University of Wales Institute of Science and Technology):

AC YN GYMAINT Â'N BOD Ni ar y 26ain dydd o Fedi 1988 wedi rhoi Siarter (a elwir wedi hyn yn "Siarter 1988") yn cyfansoddi ac yn sefydlu Coleg Prifysgol wrth enw a theitl "Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd" ("University of Wales College of Cardiff"), yn goleg cyfansoddol o'n dywededig Brifysgol Cymru, ar ôl derbyn ildio Siarter 1884, Siarteri Atodol 1893 a 1931, a Siarter 1967:

AC YN GYMAINT Â BOD Siarter 1988 wedi'i diwygio ar wahanol adegau gan Statudau Arbennig a wnaethpwyd yn briodol o dani a'i chymeradwyo gan Ein Cyfrin Gyngor a bod enw a theitl Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd wedi'u newid gan Statud Arbennig o'r fath a wnaethpwyd ym 1996 yn Brifysgol Cymru, Caerdydd:

AC YN GYMAINT Â BOD Ei Fawrhdyi'r Brenin Siôr V ar y 5ed dydd o Chwefror 1931 wedi rhoi Siarter Gorffori (a elwir wedi hyn yn "Siarter 1931") i Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru:

AC YN GYMAINT Â'N BOD Ni ar yr 11eg dydd o Ionawr 1965 wedi gweld yn dda rhoi Siarter Atodol (a elwir wedi hyn yn "Siarter Atodol 1965") i Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru yn amrywio telerau Siarter 1931:

AC YN GYMAINT Â'N BOD Ni ar y 26ain dydd o Orffennaf 1984 wedi rhoi Siarter Atodol (a elwir wedi hyn yn "Siarter Atodol 1984") i Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru yn diddymu Siarter Atodol 1965 ac yn amrywio telerau Siarter 1931 a bod enw a theitl Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru wedi'u newid drwy hynny'n Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru a'i bod wedi dod yn sefydliad cyfansoddol o'n dywededig Brifysgol Cymru:

2

AC YN GYMAINT Â BOD Prifysgol Cymru, Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru wedi cyflawni eu hamcanion a'u dyletswyddau'n gyson yn unol â'r Siarteri a Siarteri Atodol a enwyd uchod ond wedi casglu, gyda chytundeb Prifysgol Cymru, y byddai eu hamcanion a'u dyletswyddau'n cael

eu cyflawni'n well pe byddent wedi'u huno'n un sefydliad o dan enw a theitl Prifysgol Cymru,
Caerdydd:

AC YN GYMAINT Â BOD uno Prifysgol Cymru, Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru wedi'i
gyflawni gan Ddeddf Prifysgol Cymru, Caerdydd 2004, a ddiddymodd Siarter 1931 a Siarter Atodol
1984:

AC YN GYMAINT Â BOD Prifysgol Cymru, Caerdydd drwy Ddeiseb ostyngedig a gyflwynwyd i Ni yn Ein
Cyfrin Gyngor wedi deisyf i Ni weld yn dda rhoi Siarter Atodol i Siarter 1988:

AC YN GYMAINT Â BOD Prifysgol Cymru, Caerdydd wedi penderfynu newid ei henw'n Brifysgol
Caerdydd:

GWYBYDDWCH YN AWR FELLY ein bod Ni, ar ôl cymryd y ddywededig Ddeiseb i'n hystyriaeth
Frenhinol yn rhinwedd Uchelfraint y Goron a'n gras neilltuol a'n gwybodaeth sicr ac yn rhydd ac o'n
gwirfodd wedi ewyllysio ac ordeinio a thrwy'r Dogfennau hyn ar ein rhan Ni, Ein Hetifeddion a'n
Holynwyr, yn ewyllysio ac yn ordeinio heb leihau effaith y rhan honno o Siarter 1988 a gorfforodd
Brifysgol Cymru, Caerdydd a rhoi iddi olyniaeth fythol-barhaus a Sêl Gyffredin a phŵer i siwio a chael
ei siwio a gwneud yr holl gyfryw bethau eraill sy'n ategol i gorff corfforaethol, fod y ddywededig
Siarter 1988 yn cael ei diddymu drwy hyn ac y bydd y darpariaethau sy'n gynwysedig wedi hyn yn
cymryd ei lle, ond na fydd dim yn y diddymiad hwn yn effeithio ar gyfreithlondeb neu ddilysrwydd
 unrhyw waith, gweithred neu beth a gafodd ei wneud neu ei gyflawni'n gyfreithlon o dan
ddarpariaethau'r ddywededig Siarter.

I YR ENW

Gelwir y sefydliad wedi hyn yn un ai Prifysgol Caerdydd neu "Cardiff University" a chaiff siwio a chael
ei siwio a chaiff ddal tir ac eiddo a chaiff ddwyn arfbais ar arni'r naill neu'r llall neu'r ddau o'r enwau
neu deitlau hynny a chaiff ddangos y ddau o'r enwau neu deitlau hynny ar ei Sêl Gyffredin.

II AMCANION PRIFYSGOL CAERDYDD

1. Amcanion Prifysgol Caerdydd fydd:

(1) Hyrwyddo gwybodaeth ac addysg drwy ddysgu ac ymchwil a thrwy esiampl a dylanwad ei bywyd corfforaethol;

(2) Darparu hyfforddiant a chysiau astudio ar gyfer personau sy'n ceisio ymgymhwyso am raddau a gwobrwyon eraill Prifysgol Caerdydd a phrifysgolion eraill ac ar gyfer personau eraill;

(3) Hyrwyddo a darparu ar gyfer ymchwil ac ar gyfer hynny o ddulliau o hyrwyddo, lledaenu, cadw a chymhwyso gwybodaeth y gall Prifysgol Caerdydd benderfynu arnynt o bryd i'w gilydd;

(4) Meithrin cymeriad y Myfyrwyr drwy ei bywyd corfforaethol;

(5) Hyrwyddo iechyd a lles, ar ei phen ei hun neu ar y cyd ag eraill, gan gyfeirio'n arbennig at anghenion Cymru;

3

(6) Cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig.

2. Bydd Prifysgol Caerdydd yn gorff sy'n dysgu, yn ymchwilio, yn arholi ac yn dyfarnu graddau a bydd pŵer ganddi i ymgymryd â gwaith cyfreithlon o bob math gan gynnwys (ond heb leihau effaith gyffredinol yr uchod) pŵer:

(1) i roi gwobrau a chyflwyno graddau, diplomâu, tystysgrifau ac anrhydeddau tebyg a gaiff fod yn wahanfodol, yn ddeuol, ar y cyd, er anrhydedd neu fel arall ac am reswm da amddifadu person o wobr, anrhydedd neu radd o'r fath, yn amodol ar y darpariaethau yn Statudau ac Ordinhadau Prifysgol Caerdydd.

III YR YMWELYDD

Bydd Ymwelydd ar gyfer Prifysgol Caerdydd a benodir gennym Ni, Ein Hetifeddion neu Olynwyr yn y Cyfrin Gyngor yn ôl yr angen, ar ôl ei enwebu gan Ganghellor Prifysgol Caerdydd, o blith personau sy'n dal neu sydd wedi dal swydd farnwrol uchel.

IV CANGHELLOR

Bydd Canghellor a fydd, os yw'n bresennol, yn llywyddu mewn cyfarfodydd o'r Llys, a cheir penodi un neu ragor o Ddirprwy Gangellorion.

V LLYWYDD AC IS-GANGHELLOR

Bydd Llywydd ac Is-Ganghellor, a fydd yn brif swyddog academiaidd a gweithredol ac yn Gadeirydd y Senedd.

VI CADEIRYDD Y CYNGOR

Bydd Cadeirydd y Cyngor, a fydd yn Swyddog ac a fydd yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor.

VII SWYDDOGION

Caiff y Cyngor:

1. penodi Swyddogion i gyflawni hynny o swyddogaethau y mae'r Cyngor, Cadeirydd y Cyngor, neu'r Llywydd ac Is-Ganghellor yn eu haseinio iddynt;
2. ar argymhelliad y Llywydd ac Is-Ganghellor, ac yn unol â'r Rheoliadau neu Ordinhadau a ystyrir yn briodol, penodi un neu ragor o Swyddogion eraill o'r fath, a fydd yn gyflogeion i Brifysgol Caerdydd, i ddirprwyo dros y Llywydd ac Is-Ganghellor neu gyflawni hynny o swyddogaethau y bydd y Llywydd ac Is-Ganghellor yn eu haseinio iddynt.

VIII Y LLYS

Bydd Llys Prifysgol Caerdydd (a elwir "y Llys" yn Ein Siarter Atodol hon) a gaiff ei gyfansoddi'n unol â'r Statudau a'r Ordinhadau.

IX Y CYNGOR

1. Bydd Cyngor Prifysgol Caerdydd (a elwir "y Cyngor" yn Ein Siarter Atodol hon) a fydd yn gyfrifol am reoli a gweinyddu referniw ac eiddo Prifysgol Caerdydd. Y Cyngor fydd awdurdod uchaf y sefydliad fel corff llywodraethu a bydd yn arfer rheolaeth gyffredinol dros fusnes y sefydliad a bydd yn cyflawni hynny o swyddogaethau y gellir eu pennu yn y Statudau.

2. Fel yr awdurdod uchaf, y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar bob mater.
3. Yn amodol ar y darpariaethau yn Ein Siarter Atodol hon a'r Statudau, bydd pŵer gan y Cyngor i ddirprwyo, ar yr amod na fydd dim yn yr Erthygl hon yn galluogi'r Cyngor i ddirprwyo ei bŵer i ddod i benderfyniad o dan baragraff 10(2) o Statud XV.
4. Bydd pŵer gan y Cyngor i basio, diddymu, ychwanegu at neu ddiwygio'r Statudau ac Ordinhadau o bryd i'w gilydd, yn amodol yn unig ar y darpariaethau yn Erthygl XI o'r Siarter.

X Y SENEDD

Bydd Senedd Prifysgol Caerdydd (a elwir "y Senedd" yn Ein Siarter Atodol hon) a fydd yn gyfrifol, yn amodol ar bwerau'r Cyngor fel y darparwyd ar eu cyfer yn Ein Siarter Atodol hon ac yn y Statudau, am drefnu materion academaidd Prifysgol Caerdydd, ym maes dysgu ac ym maes ymchwil, ac am reoleiddio a goruchwyllo addysg myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn unol â'r Statudau a'r Ordinhadau.

XI Y STATUDAU

1. Bydd Statudau Prifysgol Caerdydd (a elwir "y Statudau" yn Ein Siarter Atodol hon). Yn amodol ar y darpariaethau yn Ein Siarter Atodol hon, caiff y Statudau bennu neu reoleiddio'r holl faterion hynny y mae'r Cyngor yn eu gweld yn dda mewn perthynas â neu ar gyfer llywodraethu'r sefydliad, ei aelodau a rhannau cyfansoddol neu fel arall ar gyfer hyrwyddo amcanion Prifysgol Caerdydd, gan gynnwys:

- (1) penodi, hyd penodiad a swyddogaethau'r Canghellor a'r Dirprwy Gangellorion;
- (2) penodi a thelerau penodi'r Llywydd ac Is-Ganghellor, Swyddogion eraill a'r Staff Academaidd;
- (3) cyfansoddiad, swyddogaethau a gweithdrefn y Llys, y Cyngor, y Senedd ac ethol, dewis, penodi, enwebu a chyfnod swydd neu aelodaeth Cadeiryddion y cyrff hynny ac aelodau eraill y cyrff hynny a llenwi swyddi gwag yn y cyrff hynny;
- (4) cadw a defnyddio Sêl Gyffredin Prifysgol Caerdydd;
- (5) Undeb Myfyrwyr;

(6) rhoi aelodaeth o Brifysgol Caerdydd i unrhyw berson;

(7) unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â llywodraethu a gweinyddu Prifysgol Caerdydd neu fel arall ar gyfer hyrwyddo amcanion Prifysgol Caerdydd.

2. Bydd Statudau presennol Prifysgol Caerdydd yn parhau mewn grym nes ychwanegu atynt, eu diddymu neu eu diwygio.

3. Bydd y Cyngor, drwy basio penderfyniad gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r rheini sy'n bresennol ac yn pleidleisio, yn cael gwneud Statudau a fydd yn diwygio, yn diddymu neu'n ychwanegu at y Statudau; ond ni fydd unrhyw Statud o'r fath yn dod i rym nes caiff ei chymeradwyo gan yr Arglwyddi yn Ein Tra Anrhydeddus Gyfrin Gyngor, a'r cymeradwyo arni wedi'i brofi'n derfynol gan dystysgrif wedi'i llofnodi gan Glerc Ein dywededig Gyfrin Gyngor, ac ar yr amod y caiff y dywededig Arglwyddi gyfarwyddo y bydd Statudau o'r fath yn dod i rym yn ddarostyngedig i hynny o ddiwygiadau, amrywiadau neu ychwanegiadau y gall Eu Harglwyddi eu gweld yn briodol.

5X

4. Caiff Statud gyfarwyddo y bydd unrhyw fater y mae'n darparu ar ei gyfer yn ddarostyngedig i ddarpariaeth bellach drwy Ordinhad, Rheoliadau neu Reolau Sefydlog: Ar yr amod y bydd unrhyw ddarpariaeth bellach o'r fath sy'n anghyson â'n Siarter Atodol hon neu â'r Statudau, i'r graddau y mae'n anghyson, yn ddi-rym.

5. Bydd unrhyw Statud sy'n anghyson â'n Siarter Atodol hon, i'r graddau y mae'n anghyson, yn ddi-rym.

XII NEWIDIADAU YN Y SIARTER

1. Ceir diwygio neu ddiddymu neu ychwanegu at y darpariaethau yn ein Siarter Atodol hon (ac eithrio Erthygl I i'r graddau y mae'n cyfansoddi ac yn sefydlu Prifysgol Caerdydd) drwy basio Penderfyniad gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r rheini sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn un cyfarfod o'r Cyngor.

2. Ni fydd unrhyw newid o'r fath yn dod i rym nes cael ei gymeradwyo gennym Ni, Ein Hetifeddion neu Olynwyr yn y Cyfrin Gyngor, a'r cymeradwyo arno wedi'i brofi'n derfynol gan dystysgrif wedi'i llofnodi gan Glerc Ein dywededig Gyfrin Gyngor.

3. Ni fydd y darpariaethau yn yr Erthygl hon o'n Siarter Atodol hon yn atal Prifysgol Caerdydd rhag deisebu am roi Siarter Atodol os yw'n dymuno hynny ac, os digwydd hynny, rhaid cydymffurfio hyd y gellir â'r weithdrefn sydd wedi'i nodi yn y ddywededig Erthygl XII.

XIII DEHONGLI

Ein Hewyllys a'n Dymuniad Brenhinol yw y bydd Ein Siarter Atodol hon yn cael ei dehongli'n ewyllysgar bob amser ac ym mhob achos yn fwyaf ffafrinol i Brifysgol Caerdydd ac i hyrwyddiad ei hamcanion.

YN DYSTIOLAETH O HYNNY yr Ydym wedi peri gwneud y rhain, Ein Llythyrau yn Agored.

TYSTIED Ein Hunain yn San Steffan ar yr unfed dydd ar ddeg o Fawrth ym mhedwaredd flwyddyn a hanner cant Ein Teyrnasiad.

DRWY WARANT O DAN LOFNOD Y FRENHINES